# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 15 RHAGFYR 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham (Cadeirydd), L.Jones, A.R.Lockyer, A.Wingrave, C.Clement-Williams, D.Jones, M.Harvey, P.A.Rees a/ac P.D.Richards

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, A.Jarrett, A.D.Thomas, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, S.Davies, C.L.Davies and J.Woodman-Ralph

**Gwahoddedigion:**

Cynghorydd: S.Rahaman (cadeirydd craffu)
S. Freeguard (is-gadeirydd craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CROESO A GALW'R RHESTR**

   Croesawodd y Cynghorydd E V Latham bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

3. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau.

4. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

Parthed: Eitem 8 ar yr Agenda – Arian Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2022/2023:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Jones | Gan ei bod yn ymddiriedolwr gyda'r Gymdeithas Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot, teimlai bod ei budd yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno'n unig. |
| Y Cynghorydd S Rahaman | Gan ei fod yn ymddiriedolwr gyda'r Gymdeithas Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, teimlai bod ei fudd yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno'n unig. |
| Y Cynghorydd P Richards | Gan ei fod yn aelod o fwrdd Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin, teimlai bod ei fudd yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno'n unig. |

Parthed: Eitem 15 ar yr Agenda – Cynigion Prosiect a wnaed i Gronfa Gymunedol yr Aelodau:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd L Jones | Gan fod un o'i chynigion i'r Gronfa wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw, teimlai bod ei budd yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar hynny. |
| Y Cynghorydd A R Lockyer | Gan fod un o'i gynigion i'r Gronfa wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw, teimlai bod ei fudd yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar hynny. |

5. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion 22 Medi, 20 Hydref, 4, 17 a 24 Tachwedd 2021 o ran cywirdeb.

6. **MONITRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2021/2022**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

7. **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R DRYSORFA 2021/2022**

**Penderfynwyd:**

Nodi gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys hyd yma yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a sut y maent yn berthnasol i'r gweithgareddau arfaethedig yn nogfennau gwreiddiol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Datganiadau Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol 2021/2022.

8. **ARIAN GRANT Y TRYDYDD SECTOR - DYFARNU GRANTIAU AR GYFER 2022/2023**

Y Cynghorwyr: D Jones, P Richards, ac S Rahaman Ailbwysleisiodd y cynghorwyr uchod eu budd ar y pwynt hwn a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno'n unig.

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo cyllideb 2022/2023 o £565,580 ar gyfer Grantiau'r Trydydd Sector.

2. Cymeradwyo'r dyfarniad canlynol o Grantiau i Sefydliadau'r Trydydd Sector fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd:

| **Sefydliad** | **Grant £** |
|---|---|
| *Afan Arts* | 5,200 |
| Cymdeithas Cymunedau Du a Lleiafrifoedd | 25,039 |

| | |
|---|---|
| Ethnig CNPT | |
| The Community Impact Initiative – C.I.C. | 5,000 |
| Calon DVS | 34,330 |
| Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin | 4,980 |
| Clwb ar ôl ysgol Ysgol Gynradd Catwg. | 4,000 |
| FAN | 10,000 |
| GROW | 13,370 |
| Glowyr Gwynfi | 5,000 |
| MMI | 5,000 |
| MMI Trading with Care | 10,000 |
| Cronfa Mullany | 5,000 |
| Neath 3A | 503 |
| Neuadd Cwmllynfell | 9,750 |
| Mind CNPT | 14,978 |
| Clwb Strôc Port Talbot | 500 |
| Cymorth i Fenywod Port Talbot | 15,000 |
| Amgueddfa Glowyr De Cymru | 8,750 |
| Y Lolfa | 1,500 |
| Cyfanswm | £177,900 |

3. Cymeradwyo ceisiadau **<u>nad ydynt</u>** i derbyn grantiau fel y rhestrir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

4. Cymeradwyo bod y grantiau canlynol yn cael eu talu i bob Partner Strategol fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

| **Dyfarniad Grant i Sefydliad Partner** | **2022-23** |
|---|---|

| **Strategol Trydydd Parti 2022-23** | **£** |
|---|---|
| Canolfan Maerdy | 28,509 |
| Cyngor ar Bopeth | 87,721 |
| Trafnidiaeth DANSA | 35,088 |
| Gweithdai DOVE | 38,378 |
| Canolfan Hyfforddiant Glyn-nedd | 46,053 |
| CGG CNPT – Cyfraniad Cyllid Craidd | 47,911 |
| Siop Cyfarpar Symudedd CNPT | 49,343 |
| Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera | 32,896 |
| Cyfanswm | £365,899 |

**<u>Rheswm dros y penderfyniadau:</u>**

Galluogi'r cyngor i gymeradwyo grantiau i sefydliadau'r trydydd sector yn unol â'r cynllun.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 19 Rhagfyr 2021.

9. **<u>ADRODDIAD LLYWODRAETHU'R RHAGLEN GYFALAF</u>**

**<u>Penderfyniadau:</u>**

1. Nodi cynnwys Atodiad 1 a 2.

2. Cymeradwyo'r protocol ar gyfer Rheoli Rhaglenni Cyfalaf fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i sicrhau bod yr argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o adolygiad Sicrwydd Annibynnol Mai 2021 yn cael eu rhoi ar waith a bod cylch gorchwyl priodol ar waith.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 19 Rhagfyr 2021.

10. **CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AR GYFER 2021-2022 TAN 2022-2023 - ADRODDIAD CYNNYDD HANNER BLWYDDYN**

**Penderfynwyd:**

Nodi'r cynnydd hanner blwyddyn a wnaed ar y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2021-2022 i 2022 - 2023 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2021 a 30 Tachwedd 2021 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

11. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2020/2021**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

12. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL - CHWARTER 2 (1 EBRILL 2021 - 30 MEDI 2021)**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

13. **ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

14. **SEFYDLIAD CYD-BWYLLGORAU YMGYNGHOROL DE ORLLEWIN CYMRU**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r ffrydiau gwaith presennol sy'n gysylltiedig â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Swyddogion i hwyluso gwaith o'r fath;

2. Nodi sut y pennir cyfrifoldebau gweithredol;

3. Cymeradwyo'r cynnig bod rhai Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymgymryd â'r dyletswyddau fel y nodir ym Mharagraff 9 o'r adroddiad a ddosbarthwyd;

4. Rhoi cymeradwyaeth i ymrwymo i gytundebau ar gyfer y Swyddogion hynny a fydd yn cyflawni swyddogaethau o'r fath i Gyd-bwyllgorau Corfforedig De-orllewin Cymru;

5. Awdurdodi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio ac unrhyw Swyddog a enwebir ganddi i gymryd rhan ym Mwrdd Rhaglen Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru;

6. Nodi'r cynnig o ran sut y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru arfaethedig a'r gwahanol is-bwyllgorau'n cael eu sefydlu:

7. Cymeradwyo'r aelodau etholedig y cyfeirir atynt ym mharagraffau 19 – 20 o'r adroddiad a ddosbarthwyd i fod yn rhan o unrhyw Gyd-bwyllgor Corfforedig ac is-bwyllgorau.

8. Awdurdodi'r Arweinydd i benodi aelod etholedig i fynd i gyfarfod os na fydd yr aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 19 -20 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn gallu bod yn bresennol.

9. Enwebu Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gynrychiolydd i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn absenoldeb Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

10. Nodi cynnig Pwyllgor Craffu Rhanbarthol ac Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ac y dylid cyflwyno adroddiad yn y dyfodol i'r Cyngor Llawn i gytuno ar gynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

11. Cymeradwyo’r penderfyniad i ddirprwyo Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel Pwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

12. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, i gytuno ar unrhyw ddogfennau sy'n angenrheidiol i weithredu gofynion yr adroddiad hwn a'r argymhellion a nodir uchod.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a sicrhau bod anghenion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cael eu hadlewyrchu yn natblygiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 19 Rhagfyr 2021.

## 15. CYNNIG PROSIECT A GYFLWYNWYD I GRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU

Ailddatganodd y Cynghorwyr L Jones ac A R Lockyer eu buddiannau ar y pwynt hwn a gadawasant y cyfarfod ar hynny.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, cymeradwyir y ceisiadau canlynol, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd ac yn cynnwys Atodiad M.

(a) Cais gan y Cynghorwyr Mark Protheroe ac Alan Lockyer am gyflenwi a gosod dau ddiffibriliwr sy'n hygyrch i'r cyhoedd, fel y nodir yn Atodiad A.

(b) Cais gan y Cynghorydd Mark Protheroe am gyflenwi a gosod diffibriliwr sy'n hygyrch i'r cyhoedd, fel y nodir yn Atodiad B.

(c) Cais gan y Cynghorydd Jane Jones i gaffael cyfarpar cynnal tir hanfodol ar gyfer Clwb Pêl-droed *Gwynfi United*, fel y nodir yn Atodiad C.

(ch) Cais gan y Cynghorydd Alun Llewellyn am gyflenwi a gosod cyfarpar iard chwarae newydd yn ardal chwarae Pen-yr-Allt, Ystalyfera, fel y nodir yn Atodiad D.

(d) Cais gan y Cynghorydd Rosalyn Davies am gyflenwi a gosod cyfarpar iard chwarae newydd yn ardal chwarae Carreg yr Afon, yng Ngodre'r-graig, fel y nodir yn Atodiad E.

(dd) Cais gan y Cynghorydd Leanne Jones i gaffael eitemau hanfodol o gyfarpar hyfforddi ar gyfer timau plant dan 6 oed a than 11 oed Clwb Rygbi Tonna, fel y nodir yn Atodiad F.

(e) Cais gan y Cynghorwyr David Whitelock, Rhidian Mizen a Charlotte Galsworthy i gyflenwi a gosod cyfarpar iard chwarae newydd yn ardal chwarae Parc Siencyn Powell, fel y nodir yn Atodiad G.

(f) Cais gan y Cynghorwyr John Miller, Sandra Miller a Sheila Penry i wella'r ddarpariaeth yn ardal chwarae CBSCNPT yn Sgwâr Wellfield/Clos Maes-y-Ffynnon, fel y nodir yn Atodiad H.

(ff) Cais gan y Cynghorydd Carolyn Edwards am gyflenwi a gosod cyfarpar iard chwarae newydd i ardal chwarae CBSCNPT yng Nghanolfan Hamdden Cwm Nedd, Blaen-gwrach, fel y nodir yn Atodiad I.

(g) Cais gan y Cynghorydd Jane Jones am gyflenwi a gosod 4 mainc yn Sŵn-y-Nant, Stryd Gwynfi, Sgwâr y Gorllewin a Theras Gelli, fel y nodir yn Atodiad J.

(ng) Cais gan y Cynghorwyr Wyndham Griffiths, Jo Hale a Chris Williams i gyflenwi a gosod cyfarpar iard chwarae newydd yn ardal chwarae Heol Glynderwen, fel y nodir yn Atodiad K.

(h) Cais gan y Cynghorydd Carolyn Edwards am gyflenwi a gosod tri diffibriliwr sy'n hygyrch i'r cyhoedd, fel y nodir yn Atodiad L.

(i) Cais gan y Cynghorwyr Adam McGrath a John Warman i sefydlu prosiect 'Ein Cynefin/Our Habitat' yn Ysgol Cefn Saeson, fel y nodir yn Atodiad M.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi i'r ceisiadau a dderbynnir am arian gael eu hystyried a'u cytuno.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 19 Rhagfyr 2021.

16. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**